# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 12/03/18 |
| **Pwnc:** | Adolygiad o'r Cynllun Digonolrwydd Chwarae 2017-2018 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cynnig diweddariad ar weithgareddau'r cynllun i aelodau |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | R.Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Delyth Molyneux |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Bethan Hywel Jones<br>BethanHJones@ynysmon.gov.uk<br>01407 767784 |
| **Aelodau lleol:** | Yn berthnasol i bob rhan o'r ynys |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofyn am sêl bendith y Pwyllgor Sgrwtini i'r adroddiad Adolygu Chwarae 2017 - 18 er mwyn ei yrru mlaen i'r Llywodraeth yn unol â gofynion statudol yn "Cymru - Gwlad lle mae cyfle i chwarae" July 2014 a Phennawd 2, Rhan 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) sydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol o ran cyfleoedd chwarae a'r gofyn i adolygu'r asesiad digonolrwydd chwarae'r flynyddol.

Mae'r Adolygiad ynghlwm ac mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn dangos bod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol o fewn y maes yma.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae'r Cynllun Digonolrwydd Chwarae yn cyfrannu tuag at y dair uchelgais Corfforaethol sef:

- Creu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir.
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Mae hwn yn gyfrifoldeb statudol ac yn codi o adolygiad o'r Cynllun Digonolrwydd Chwarae a luniwyd ym Mawrth 2016. Mae cyllid ar gyfer sicrhau cyfleoedd chwarae yn cael ei dderbyn drwy grant gan LLywodraeth Cymru yn flynyddol. Mae'r Cynllun Gweithredu Chwarae yn sicrhau bod cymunedau, ysgolion a phartneriaid e.e. hamdden a diwylliant, a'r trydydd sector yn cydweithoio i gynnig cyfleoedd datblygu chwarae i deuluoedd ifanc a phlant yn ystod y flwyddyn.

## 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Mae'r holl weithgareddau'n cydymffurfio gyda;'r Polisi Iaith Corfforaethol a mae pob gweithgaredd wedi'i gynllunio i sicrhau mynediad llawn i gymaint o blant a phobl ifanc a phosib, yn unol a'n dyletswyddau statudol.

## 7 – Oblygiadau Ariannol

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gweithgareddau blynyddol drwy grant I'r awdurdod. Mae'r swm yn amrywio a derbynnir cyllid ychwanegol tuag at ddiwedd

blwyddyn ariannol er myn cynnig cyfleoedd ychwanego. Cynllunir y gweithgareddau ychwanegol yma ganddom. Eleni y cyfanswm oedd £37,000.

O ran y cyllid, cyllidwyd y swydd flaenorol o Swyddog Chwarae drwy grant Teuluoedd yn Gyntaf. Ond o Ebrill 2018 oherwydd newid yn amodau'r grant a natur statudol y maes, nid oes modd ei gyllido o’r grant mwyach.

O ganlyniad mae'r Adran Dysgu wedi cynnwys y dyletswyddau o fewn ei Uned Cefnogi Plant a Theuluoedd fydd yn cynnwys dyletswyddau chwarae gyda’r cyfrifoldeb am gwblhau ac adolygu ei Asesiad digonolrwydd Gofal Plant. Fydd hyn yn caniatáu gwasanaeth cydlynol, targedu adnoddau a datblygiadau ar draws y ddau faes.

**8 – Atodiadau**

Cynllun Gweithredu Chwarae 2017-2018.

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

# Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol 2017-18

**Enw’r awdurdod lleol: Cyngor Ynys Môn**

**Enw’r swyddog cyfrifol: Bethan Hywel Jones**

**Teitl y swydd: Rheolwr Uned Cefnogi Teuluoedd**

**Dyddiad cwblhau: 25 Chwefror 2018**

# Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol 2017-18

| Mater: A | | |
|---|---|---|
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli) |
| **Sicrhau cefnogaeth i gymunedau er mwyn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.** | **Ymestyn y clybiau / cyfleoedd.**<br><br>**Ymgeisio i symud darpariaeth gwyliau ymlaen yn ôl yr angen.** | **Cyllid Clwb Ieuenctid/Gwasanaeth Anableddau Plant (GAP)/ Ysgol Y Bont/grwpiau cymunedol fel Clwb Ni a Chlwb Cybi.**<br><br>**Ac ymgeisio am grantiau sydd yn codi.** |
| **Mater:B** | | |
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli) |

| | | |
|---|---|---|
| **Cefnogi ardaloedd gwledig a phentrefi llai i ddatblygu cyfleoedd chwarae yn yr ardaloedd** | **Cynnig cefnogaeth i'r ardaloedd hynny sydd angen cefnogaeth er mwyn cyfoethogi cyfleoedd chwarae.** | **Dim sicrwydd cyllideb ar gyfer yr elfen yma ond manteisio ar grantiau Llywodraeth a chyfeirio grwpiau i grantiau cymunedol/loteri ayyb. I hybu cynaladwyedd a chyfrifoldeb. Cydweithio yn bwysig gyda mentrau eraill megis yr Urdd, Clybiau Ieuenctid, Menter Iaith, clybiau ar ol Ysgol ayyb.**<br><br>**Grantiau o £3000 wedi'i gynnig ym Mawrth 2017 a grant arall o £2000 yn cymryd lle yn Hydref 2017 . Cyllidwyd y canlynol:**<br>49 o gynlluniau chwarae gan gymunedau rhwng Ebrill a Medi 2017<br>Safle Twitter Mon Chwarae gyda 290 o ddilynwyr<br>Lansiad llyfryn Dewch i Chwarae gyda manylion llefydd chwarae am ddim.<br><br>**Grant ychwanegol gan y Llywodraeth yn Chwefror 2018 a chyllidwyd y canlynol yn ychwanegol:**<br>Darparu podiau chwarae allanol, offer chwarae allanol a meddal i Ysgol arbennig a ysgolion cynradd.<br>Diwrnodau hwyl i deuluoedd dros y gwyliau Pasg.<br>Grantiau i hybu chwarae yn y gymuned. |

| Mater: C | | |
|---|---|---|
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli) |
| **Datblygu strwythur mapio ardaloedd chwarae . Arwyddion "dim chwarae pel" wedi dileu. Arwyddion "plant yn chwarae" yn ei lle.** | **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol -- yn cychwyn Asesiad Mannau Agored - polisi ISA 4 yn gwarchod llecynnau agored a pholisi ISA 5 yn creu llecynnau newydd, os oes angen (lle mae yna ddiffyg darpariaeth) hefo ceisiadau cynllunio am 10 neu fwy o dai. Proses ar y gweill o ysgrifennu Canllaw Cynllunio Atodol ar 'Llecynnau Agored o Fewn Datblygiad Preswyl Newydd gan adran Gynllunio.** | **Dim cyllid ar gael yn gyfredol i gyflawni hyn o safbwynt arwyddion.<br><br>O ran mapio edrych ar ddefnyddio systemau Cyngor / trydydd sector i fapio - gan ystyried Gwefapio - GIS - a'r modd i ychwanegu gwybodaeth o fewn y filltir sgwâr fydd efallai yn rhad ac am ddim.** |
| **Mater: E** | | |
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli) |
| **Nodi holl ddarpariaeth Sirol ar gyfer anghenion amrywiol, gan wneud yn siŵr fod y wybodaeth yn gywir a chyfoes.** | **Hyrwyddo'r ddarpariaeth ymysg asiantaethau, a'u gwneud yn ymwybodol fod angen llenwi'r ffurflen briodol ac arwyddo'r darn – 'Gwarchod data ac awdurdod i'w ddefnyddio'. Mae Dewis Cymru yn wefan wybodaeth sydd wedi datblygu i gynnwys manylion am wasanaethau i oedolion yn wreiddiol ond rŵan yn ehangu ar gyfer plant a theuluoedd gyda'r pwrpas o gynnal a chynnwys gwybodaeth gyffredinol am wasanaethau ayyb o fewn yr ardal. Y wefan Dewis yn ddatblygiad ar gyfer cwrdd ag gofynion Teulu Môn.** | **Rhan o waith sefydliad Teulu Môn.** |
| **Mater: F** | | |

| Meini prawf<br>(yn unol â'r pecyn PSA) | Camau Gweithredu 2017/18 | Ffynhonnell Ariannu<br>(ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli) |
|---|---|---|
| **Adnabod gweithgareddau rhad ac am ddim / cost isel i grwpiau sydd yn darparu cyfleoedd chwarae.** | **Sicrhau dewis eang o ddarpariaeth rad ac am ddim.<br>Cadw'r wybodaeth yn gyfredol a'i wneud yn hysbys i'r cyhoedd.<br><br>Rhoddi cymorth i gymunedau i fynd ati i ymgeisio am grantiau er<br>mwyn rhedeg gweithgareddau. Cefnogi yn bennaf ardaloedd sydd yn ddifreintiedig o weithgareddau chwarae.<br><br>Llyfryn Dewch i Chwarae yn nodi gweithgareddau rhad ac am ddim.<br>Gwybodaeth ar wefan Ymweld â Môn.** | **Rhan o waith sefydliad Teulu Môn.** |

| **Mater F** | | |
|---|---|---|
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** **(ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)** |
| **Cyd-weithio gydag asiantaethau diogelwch cymunedol a'r cymunedau i ddatblygu cynlluniau fel bod y plant yn gallu chwarae allan mewn awyrgylch sydd yn ddiogel.** | **Sicrhau asesiadau risg ar lefydd chwarae yn digwydd/ adnabod ardaloedd diogel drwy mappio/ linc i Gynllun Datblygu Lleol cafodd ei fabwysiadu Gorffennaf 2017/ hyfforddi'r sector/ cynghorau tref a chymuned/** Gwasanaeth Cynllunio a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru yn gwarchod llecynnau presennol ac i drio darparu ragor o lecynnau chwarae/agored.<br>Mae Polisi ISA5: 'Darparu Llecynnau Agored Mewn Datblygiad Tai Newydd' yn datgan y disgwylir i gynigion tai newydd ar gyfer 10 neu fwy o unedau mewn lleoliadau ble nad oes yna ddarpariaeth ddigonol bresennol o lecynnau agored er mwyn cyfarch yr angen gyfrannu tuag at ddarpariaeth addas o lecynnau agored. | **Arian amlasiantaethol. Heddlu ac Adran Dai/Addysg/grwpiau cymunedol. Ceisiadau cynllunio newydd yn blaenoriaethu llecynnau agored a'r gost yn disgyn ar y datblygwr.** |
| **Mater G** | | |
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** **(ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)** |

| | | |
|---|---|---|
| Hyrwyddo hyfforddiant ar faterion chwarae er mwyn datblygu staff<br>Hyfforddiant ar gyfer staff i ddatblygu chwarae<br>Asesiad o anghenion hyfforddi o fewn y sector | Cynnal o leiaf 1 Cynhadledd / Gweithdy'r flwyddyn.<br><br>Hyrwyddo cyrsiau o dudalen Chwarae Cymru i Ofalwyr Plant, Ymwelwyr Iechyd ac Asiantaethau sydd yn gweithio gyda theuluoedd.<br>Grant Allan o Ysgol wedi cyllido Playwork Lefel 3 i 20 o weithwyr yn y maes clybiau ar ol ysgol. | Dim arian craidd ond modd ddefnyddio arian tanwariant.<br>Edrych ar ariannu hwn hefyd drwy grant Darpariaeth Allan o Ysgol a chyd cynllunio ar draws y maes gofal a chwarae. |
| **Mater H** | | |
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli) |
| Cynnig cefnogaeth a gwybodaeth i asiantaethau/cymunedau sydd yn darparu cyfleoedd chwarae am gyfleoedd cyllidol. | Parhau i yrru gohebiaeth am gyfleoedd i ymgeisio am arian i ddatblygu ardaloedd a gweithgareddau ar Ynys Môn. | Darpariaeth benodol o fewn yr Uned Cefnogi Teuluoedd am sicrhau cyd-gordio gofynion statudol plant a chwarae o Ionawr 2018 ymlaen. |
| Cyd-weithio gyda swyddogion sydd yn gyfrifol am gynlluniau Egnïol Môn,) er mwyn datblygu cydweithio traws adrannol gyda<br>Chwarae, Hamdden a Chwaraeon. | Darparu cyfleoedd chwaraeon / gweithgareddau corfforol i bobl ifanc a gwneud hyn trwy weithio mewn partneriaeth. | Cydweithio rhwng gwahanol adrannau.<br><br>Uned Cefnogi Teuluoedd am sicrhau cyd-gordio gofynnion statudol plant a chwarae o Ionawr 2018 ymlaen. |
| Cadw cysylltiad yn rheolaidd megis gwefannau, gwefannau cymdeithasol ayyb | Sicrhau fod y wybodaeth yn gyfoes a chywir am ddeunyddiau a digwyddiadau chwarae ac cydweithio ar 3 digwyddiadau chwarae/hamdden cyn y gwyliau Pasg. | Teulu Môn i redeg y Safleoedd Cymdeithasol ar y cyd gydag Uned Cefnogi Teuluoedd/wefan y Cyngor Sir. |
| **Mater I** | | |
| **Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)** | **Camau Gweithredu 2017/18** | **Ffynhonnell Ariannu** (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli) |

| | | |
|---|---|---|
| **Cydweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau dealltwriaeth o bwysigrwydd/buddiannau chwarae.**<br>**Person wedi adnabod ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo chwarae.**<br>**Cynnyws chwarae o fewn y Cynllun Llesiant i Mon.** | **Cynnig cefnogaeth i Ysgolion i ddarparu syniadau ar ffyrdd o gyfoethogi chwarae oddi fewn ac allan i oriau'r Ysgol.**<br><br>**Sicrhau cysylltiadau cadarn gyda'r ysgolion, Cynghorau Ysgol a Phwyllgorau Rhieni'r Ysgolion.**<br><br>**Nod y Cynllun llesiant yn cynnwys pennawd am lesiant blant yn gyffredinol a chynlluniau unigol am ddatblygu o fan hyn.** | **I'w gael ei hyrwyddo drwy Swyddog Ysgolion Iach.**<br><br>**Unrhyw gynlluniau penodol gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Llesiant.**<br><br>**Grantiau Llywodraeth Cymru lle mae'n briodol.** |
| **Sicrhau ymagweddau positif tuag at chwarae yn cael ei adlewyrchu oddi fewn y cyfryngau.** | **Sicrhau newyddion yn fisol. Drwy Twitter, Papurau Lleol ac ar Fôn FM.**<br>**Safle we Dewis.**<br>**Safle we Y Cyngor Sir/ Facebook a Thrydar.** | **Hyn yn digwydd yn arferol gan grwpiau cymunedol.**<br>**Safle we Dewis wedi cyllido gan Wasanaethau Cymdeithasol.** |